

LIC 24-05

GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

Cyfarwyddydau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (Arfer Swyddogaethau) (Cymru) 2024

Gwnaed 5 Chwefror 2024

Yn dod i rym am 5.00 p.m. ar 6 Chwefror 2024

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 29(5) a (6) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(1).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (Arfer Swyddogaethau) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym am 5.00 p.m. ar 6 Chwefror 2024.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr “yr awdurdod” (“*the authority*”) yw Awdurdod Tân ac Achub De Cymru;

ystyr “Awdurdod Tân ac Achub De Cymru” (“*South Wales Fire and Rescue Authority*”) yw'r corff a sefydlwyd gan baragraff 4 o'r Atodlen i Orchymyn Gwasanaethau Tân De Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995(2);

(1) 2009 mccc 2. Mae cymhwyso Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i awdurdodau tân ac achub yn ddarostyngedig i'r hepgoriadau a nodir yn adran 168(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc. 1) ac yn ddarostyngedig i ddiddymiad gan adran 170 o'r Ddeddf honno. Nid yw adran 168(1) nac adran 170 wedi eu dwyn i rym.

(2) O.S. 1995/3230.

ystyr “enwebeion” (“*nominees*”) yw’r personau y cyfeirir atynt yng Nghyfarwyddyd 3(a) ac y cyfeirir atynt hefyd fel “comisiynwyr”;

ystyr “swyddogaethau’r awdurdod” (“*the authority’s functions*”) yw’r rhai a bennir yng nghyfarwyddyd 4.

Cyfarwyddydau i enwebu personau i arfer swyddogaethau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

3. Mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo—

- (a) na chaniateir arfer swyddogaethau’r awdurdod ond gan y personau a ganlyn (“yr enwebeion”), fel y’u nodir gan Weinidogion Cymru, am y cyfnod sy’n dechrau am 5pm ar 6 Chwefror 2024 ac sy’n dod i ben ar ddyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd pellach—
 - (i) Carl Jason Foulkes QPM (cyn-Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru),
 - (ii) Vijith Randeniya OBE (cyn-Brif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Canolbarth Lloegr),
 - (iii) Y Farwnes Wilcox o Gasnewydd (cyn-Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd a chyn-Arweinydd CLILC),
 - (iv) Victoria Kirstyn Williams CBE (cyn-Aelod o’r Senedd), ac
 - (v) unrhyw berson arall a bennir at y diben hwn drwy gyfarwyddyd pellach Gweinidogion Cymru;
- (b) bod rhaid i’r awdurdod gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau gan yr enwebeion mewn perthynas ag arfer swyddogaethau’r awdurdod;
- (c) bod rhaid i’r awdurdod ddarparu’r cymorth hwnnw y mae ei angen ar yr enwebeion at ddiben arfer swyddogaethau’r awdurdod, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i—
 - (i) ddarparu cefnogaeth weinyddol ac ysgrifenyddol i’r enwebeion;
 - (ii) caniatáu mynediad i’r enwebeion ar unrhyw adeg resymol—
 - (aa) i unrhyw fangre a gynhelir gan yr awdurdod,
 - (bb) at unrhyw ddogfen sydd ym meddiant yr awdurdod,
 - (cc) at unrhyw system technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a gynhelir gan yr awdurdod, neu y mae gan yr awdurdod neu ei gyflogeion fynediad ati, a

- (dd) at unrhyw un o gyflogeion neu aelodau'r awdurdod;
- (iii) ad-dalu treuliau y mae'r enwebeion wedi mynd iddynt yn rhesymol wrth arfer swyddogaethau'r awdurdod;
- (iv) talu'r enwebeion am yr holl waith rhesymol a wneir gan bod un ohonynt mewn perthynas ag arfer swyddogaethau'r awdurdod ar gyfradd o £550 y dydd.

Y swyddogaethau sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddydau

4. Swyddogaethau'r awdurdod sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd 3 yw'r holl swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r awdurdod yn unol ag unrhyw ddeddfiad, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i—

- (a) Rhan 1 (trefniadau lleol ar gyfer diogelwch sifil) a Rhan 2 (pwerau argyfwng) o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004(1);
- (b) adran 5A (pwerau awdurdodau tân ac achub penodol) a Rhan 2 (swyddogaethau awdurdodau tân ac achub) o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(2);
- (c) Rhan 1 (gwella llywodraeth leol) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
- (d) Rhannau 3 (gorfodi) a 4 (troseddau ac apelau) o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005(3);
- (e) Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007(4).

Diogelu data

5. Nid oes dim yn y Cyfarwyddydau hyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod wneud unrhyw beth yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data.

-
- (1) 2004 p. 36. Diwygiodd O.S. 2018/644 adrannau 2 i 6, 9, 10, 13, 15, 15A, 16, 17, ac Atodlen 1, ac ychwanegodd adrannau newydd 8A, 11A, 14B, 15B, a Rhannau newydd 2A a 5 o Atodlen 1 i Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.
 - (2) 2004 p. 21. Mewnosodwyd adran 5A gan adran 9 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20). Diwygiwyd Rhan 2 gan adran 10 o Ddeddf Lleoliaeth 2011.
 - (3) O.S. 2005/1541, a ddiwygiwyd gan baragraffau 88 a 89 o Atodlen 12 i Ddeddf Ynni 2013 (p. 32), adran 12 o Ddeddf Plismona a Throseddu 2017 (p. 3), adran 156 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 (p. 30), O.S. 2006/484, O.S. 2008/960, O.S. 2015/51 ac O.S. 2015/1682.
 - (4) O.S. 2007/3193 (Cy. 280), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/168 (Cy. 49).

Hannah Blythyn

Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, o
dan awdurdod y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
a'r Prif Chwip, un o Weinidogion Cymru
5 Chwefror 2024